

Cyngor Cymuned **Llanidan** Community
Council

Cofnodion / Minutes

Nid yw hi'n bosib cynnal cyfarfod llawn o'r Cyngor yn bersonol
ar nos Fawrth, 28ain Gorffennaf 2020 oherwydd y Covid-19.
Felly, penderfynwyd i gynnal cyfarfod ar-lein yn lle.

*It is not possible to hold a full meeting of the Council in person on
Tuesday 28th July 2020 because of the Covid-19.
Therefore, it was decided to hold an online meeting instead.*

Presennol / Present: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson), Mr Cenwyn Williams **CW**, Cyngorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mrs Lindsay Vaughan **LV**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc / Clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Mr Steven A. Jones **SAJ**, Cyngorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**, Mr Mark E. Evans **MEE**, Mr Arwyn Jones **AJ**.

Yn absennol / Absent: Mr Chris Davies **CD**.

1. **Croeso / Welcome**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **ST** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by ST and all present were welcomed.

2. **Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**

Dim / None

3. **Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 07/07/20. / Minutes of last meeting 07/07/2020.**

Derbyniwyd y cofnodion 07/07/2020 yn gywir, Cynigwyd gan **LV**, Eiliwyd gan **CW**.
The minutes 07/07/20 were confirmed correct, Proposed by LV, Seconded by CW.

4. **Balans ar 01/07/2020. / Balance on 01/07/2020.**

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/07/2020)	-	£10,601.20
Cynilo "BMM" (ar 22/06/2020)	-	£ 4,882.68
	=	£15,483.88

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 23/07/2020. / Y Ganolfan Bank balance on 23/07/2020.

Cyfrif "Community" (ar 23/07/2020)	-	£ 2,666.43
Cynilo "BMM" (ar 23/07/2020)	-	£ 3,318.76
	=	£ 5,985.19

5. Cyllid / Finance

5.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid

£100.00 - Gwaith am archwilio cyfrifon a dogfennau a paratoi adroddiad ar gyfer Archwiliad Allanol & Ffurflen Blynnyddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020. / *Work for auditing accounts and documents and preparing a report for the Council's External Audit & Annual Return for the period up to 31 March 2020.*

£78.00 - Aelodaeth blynnyddol S.L.C.C.. / *S.L.C.C. yearly membership.*

£715.00 – Cyflog y Clerc (Ebrill, Mai a Mehefin). / *Clerks wages (April, May & June)*

£500.00 - Cyfraniad blynnyddol i Eglwys Llanidan am 2020. / *Yearly contribution to Llanidan Church for 2020.*

5.2 Biliau iw dalu / Bills for payment

£4.40 - I **LH** am postio taliadau hefyd y cyfrifon blynnyddol i BDO. / *To LH for posting payments as well as the yearly accounts to BDO.*

Cynigwyd gan **ST**, Eiliwyd gan **LV**. / *Proposed by ST, Seconded by LV.*

5.3 Taliadau wedi Derbynn / Payments Received

£2.28 - Llog banc i cyfrif "BMM" / *Bank interest for "BMM" account.*

£62.07 - Taliad 'Wayleave' gan Scottish Power / *'Wayleave' payment from Scottish Power.*

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

6.0.1 Ail agor cae chwarae / cae peldroed / Asesiad Risg. / Re-opening of playing field / football field / Risk Assessment.

Rydym wedi derbyn canllawiau gan CSYM i ddilyn ar gyfer ailagor y cae chwarae. / *We have received guidance from IACC to follow for re-opening of playing field.*

6.0.2 Gerddi Tai Newydd, Brynsiencyn. / Gardens of Tai Newydd, Brynsiencyn. Dim i'w adrodd / *Nothing to report*

6.0.3 HSBC Safeguarding

Mae hwn bellach wedi'i gwblhau ac mae popeth yn iawn. Diolchwyd i'r clerch am ei gwaith. / *This has now been completed and all is well. The clerk was thanked for her work.*

6.0.4 Peiriannau ail-lenwi poteli dŵr. / Water refill stations.

Dim i'w adrodd / *Nothing to report*

6.0.5 Grant i goliau ar gyfer cae peldroed / *Grant for goals in football pitch*

Mae'r goliau wedi'u archebu erbyn hyn. Bydd yn rhaid symud yr hen goliau yn gyntaf. Bydd angen i ni hysbysebu ar wefan gymdeithasol bod y goliau newydd wedi cyrraedd. / *The goals have now been ordered. The old goals will have to be removed first. We will need to advertise on a social website that the new goals have arrived.*

6.0.6 Llwybr cyhoeddus 37/001 / *Public footpaths 37/001*

Darllenwyd yr ymateb gan CSYM ynglyn a ffens trydanol ar y llwybr cyhoeddus yma. Mae'r clerc i gysylltu gyda CSYM i weld a yw'r gwaith wedi'i gwblhau cyn y cyfarfod nesaf. / *The response was read out from IACC regarding the electrical fencing on this public footpath. The clerk is to contact IACC to see if the work has completed before the next meeting.*

6.0.7 Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2018/2019 BDO. / *Council Accounts Audit 2018/2019 BDO.*

Mae'r Clerc wedi anfon y Ffurflen Flynyddol i gwmni BDO ar 08/07/2020. Heb glywed dim eto. / *The Clerk has sent the Annual Return to BDO on 08/07/2020. Haven't heard anything yet.*

6.0.8 Cyfarfod mis Awst 2020? / *August 2020 meeting?*

Mae'r aelodau yn hapus i gynnal cyfarfod sydyn yn mis Awst 2020. / *Members are happy to hold a quick meeting in August 2020.*

6.0.9 Y Ganolfan

Nid yw'r Cadeirydd nac aelodau eraill yn hapus i ailagor yr adeilad. Pan fydd yr amser yn caniatáu, bydd angen dilyn canllawiau ar gyfer ailagor yr adeilad gan gynnwys asesiad risg. Mae angen gwneud trefniadau i'r trydanwr ddod i wneud atgyweiriadau cyn ailagor. Clerc i ebostio yn ôl. / *Neither the Chairman nor other members are happy to reopen the building. When time allows, guidelines for reopening the building will need to be followed including a risk assessment. Arrangements need to be made for the electrician to come and carry out repairs before reopening. Clerk to email back.*

6.1.0 Mandad y banc

Cwblhawyd y ffurflen ar gyfer ychwanegu aelod arall i mandad at y banc. / *The form for adding another member to the bank mandate was completed.*

6.1.1 Eglwys Llanidan

Darllenwyd y llythyr gan yr ysgrifenydd yn diolch i ni am y cyfraniad. / *The letter was read by the secretary thanking us for the contribution.*

7. Cynllunio / Planning

7.1 Ceisiadau / Applications

FPL/2020/8, Gwydryn Newydd, Llanfairpwllgwyngyll - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol/ysgubor i ty gwyliau gosod, gosod system trin carthffosiaeth ynghyd a chau y mynedfa presennol i geir a creu mynedfa newydd i gerbydau yn / *Full application for conversion of an outbuilding/barn into a holiday let, installation of a private treatment tank together with closing the existing vehicular access and construction of a new vehicular access at*
Dim gwrthwynebiad / No objection

FPL/2020/46, Glan Rhos, Brynsiencyn - Cais llawn ar gyfer newid y defnydd o Lety Rheolwyr i fod yn Gyfleuster Gofal Ychwanegol yn / *Full application for the change of use from Managers Accommodation into an Extra Care Facility at*
Cefnogi / Support

7.2 Penderfyniadau / Decisions

Dim / None

8. Gohebiaethau drwy ebyst / Correspondence via emails

Rhestrwyd gohebiaethau yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

9. Adroddiadau gan y cynghorwyr sir. / Reports from the county councillors.

9.1 Adroddiad Cynghorydd EWJ / Councillor EWJ Report

Mae gan CSYM gyfarfod yfory i adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer Ynys Môn. Roedd am dynnu sylw bod ardal Bro Rhosyr yn cael ei lleihau ac yn newid enw i Braint sydd yn fwy perthnasol i'r ardal yma. / *IACC has a meeting tomorrow to review the electoral arrangements for Anglesey. He wanted to draw attention that Bro Rhosyr area was being reduced and changing its name to Braint which is more relevant to this area.*

10. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

10.1LV - Mae hi wedi derbyn cwynion gan y cyhoedd bod yna lawer o ysbwriel i weld ger y cae chwarae/cae peldroed. Oes posib i lleihau ysbwriel a chael cwmni i wagio'r biniau yn wythnosol? / *She has received complaints from the public that there is a lot of litter found near the playing field /football pitch. Is it possible to reduce litter and have a company to empty the bins on a weekly basis?*

LV - Wedi derbyn cwynion am ordyfiant ar dir y cyngor rhwng Eryri a Gelli Aur. Mae perchnogion y tai yma wedi gweld olion llygod mawr yn eu gardd gefn ac yn poeni bod nifer y llygod mawr yn mynd i dyfu yn enwedig gydag ysgol gynradd wrth ymyl. / *Has received complaints of overgrowth on council land between Eryri and Gelli Aur. The owners of these neighbouring houses have seen the remains of rats in their back garden and are worried that the number of rats is going to grow especially with a primary school nearby.*

10.2 **CW** - Mae yna tyllau yn y lôn yn enwedig ar waelod Lôn Uchaf. Mae angen cysylltu gyda CSYM i ofyn iddynt archwilio Lôn Uchaf i gyd ac llenwi'r tyllau yn ôl yr angen. / *There are potholes in the road especially at the bottom of Lôn Uchaf. We need to contact the IACC to ask them to explore all of Lôn Uchaf and fill in the holes as required.*

CW - Mae Gwynedd Skips yn gallu wagio biniau sbwriel bob wythnos ond mae angen eu talu'n rheolaidd. Mae **CW** am wneud fwy o ymholiadau. / Gwynedd Skips can empty bins on a weekly basis but they need to be paid regularly. **CW** will make more inquiries.

10.3 Nid oedd gan aelodau eraill dim i'w adrodd. / *Other members had nothing to report.*

11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

11.1 Nos Fawrth, 25/08/2020 am 6.30y.h. yn 'Y Ganolfan'.

Tuesday Evening, 25/08/2020 at 6.30pm in 'Y Ganolfan'.

11.2 Diolchodd yr Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 7.35y.h.. / *The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 7.35pm.*

Os yw'r cyfyngiadau o ran Covid-19 yn dal i fod ymlaen yn mis Awst 2020, byddwn yn parhau â'r un dull o cyfarfod ar-lein.

If the restrictions with regards to Covid-19 are still in place in August 2020, we shall carry on with the same method of meeting online.